

Cynan yr Archdderwydd.

# DŴR O FFYNNON FELIN BACH

*Cyfrol i goffau canmlwyddiant geni*

CYNAN

*Golygydd:*

IFOR REES

GWASG GEE
DINBYCH

# *Y Cyfaill*

Ie, yn Eisteddfod Caernarfon, un naw dau ddeg un (1921), sef Eisteddfod 'Mab y Bwthyn', y gwelais i Cynan am y tro cyntaf erioed — a braint ydoedd yn wir. Ac fel hyn y bu. Hyd y flwyddyn honno roedd fy Nhad a minnau yn mynd i bob Eisteddfod Genedlaethol bron ond yr oedd streic y flwyddyn honno wedi gwacáu jwg yr Eisteddfod oedd yn hongian ar y dresar yn y gegin, ac i ddefnyddio gair ein Pentre ni, nid oedd ynddi ddigon o 'whechinoca' i'n galluogi ni ein dau i fynd i Gaernarfon, ond fe gymerodd fy nhad arno fod poen wedi'i daro yn ei droed ac na allai gerdded yn ddi-boen. Deallais wedi hynny mai cynllun cyfrwys ydoedd hynny er sicrhau y buaswn *i*, beth bynnag, yn mynd i Gaernarfon fy hunan. Ac felly y bu. Wedi cyrraedd Caernarfon a gweld y cannoedd, teimlais, a minnau heb nabod neb, bwl bach o hiraeth am gartre' ond gyda hyn, teimlais law ar f'ysgwydd a llais yn gofyn, 'Nid un o hogia Berry Gwaelod-y-Garth ydach chi?' Gwelais ar unwaith mai Pedrog ydoedd.

Roedd wedi bod yn pregethu yn ein Cyrddau Mawr ychydig cyn hynny ac yr oedd pedwar neu bump ohonom ni fechgyn yr Eglwys wedi cael peth o'i gwmni dros y pen-wythnos. Diflannodd fy hiraeth am gartre a theimlaf yn dra diolchgar hyd heddiw am gyffyrddiad y llaw garedig honno. Ond tra oeddem yn siarad dyma ddau ddyn yn dod ymlaen i siarad â Pedrog ac yr oedd yn amlwg eu bod yn nabod ei gilydd yn dda. Un ohonynt oedd Anthropos, ni chofiaf enw'r llall,



a thra yr oeddent hwy yn siarad a minnau'n gwrando dyma ddau fachgen ifanc yn ymuno â ni. Un ohonynt oedd Cynan, a dyma Anthropos yn fy nghyflwyno iddynt fel 'hogyn o'r De — o Eglwys Berry'r Dramodydd' a dyna ddechrau cyfeillgarwch agos iawn a fu rhyngom hyd ei farwolaeth — dros hanner can mlynedd. Ym mhob Eisteddfod ddilynol roeddem yn ceisio cael awr fach gyda'n gilydd a buom yn 'llythyru' yn achlysurol rhwng yr Eisteddfodau ac y mae rhai o'r llythyrau hynny yn fy meddiant o hyd.

Ond tua'r flwyddyn un naw pedwar deg chwech neu saith roedd Nel a Cynan ar ymweliad â Chaerdydd ac fe gawsom gyfle i giniawa gyda'n gilydd, Nel a Cynan, fy mhriod a minnau, a chefais gyfle y noson honno i ddweud wrtho fod Cymry Caerffili yn sôn am wahodd Eisteddfod mil naw cant pum deg i'r dref honno. Neidiodd at y syniad ar unwaith ac meddai, beth am wneud Eisteddfod Caerffili yn Eisteddfod gwbl Gymraeg a llwyfannu'r Rheol Gymraeg am y tro cyntaf erioed yno? 'Iawn,' meddwn i, 'os gellir cario'r trigolion a'r Selogion gyda ni'. Ni chafwyd y trafferth lleiaf ac felly y bu. Yn nhref hynafol Caerffili y cynhaliwyd yr *Eisteddfod hollol Gymraeg* gyntaf erioed yn y flwyddyn mil naw cant pum deg a chafwyd Eisteddfod hynod lwyddiannus ym mhob ystyr. Cafwyd cydweithrediad hapus dros ben rhwng y Pwyllgor Gwaith lleol a Chyngor yr Eisteddfod, a chafwyd hefyd bob cefnogaeth o'r Dref a'r Cynghorau cylchynol. Fel y gellid disgwyl bu raid inni bwyso'n drwm iawn ar Cynan ac eraill am arweiniad a chyfarwyddyd a chyngor yn y trafodaethau a'r paratoadau a chafwyd pob cefnogaeth. Bron na ddywedwn i fod Cynan yn bwyllgorwr wrth natur am y gallai weld, ys dywedai Williams, 'Y tu hwnt i eitha pella' unrhyw gynnig neu syniad a allai godi mewn pwyllgor, a deuai ei hiwmor iach i'r brig yn aml er osgoi unrhyw sefyllfa a allai gynhyrfu ambell i Bwyllgorwr croendenau. Wrth sôn am hyn, fe gofia'r Eisteddfodwyr hŷn i mi gael llawer mwy na'm rhan o ofidiau a thrafferthion ddeng mlynedd ar ôl Caerffili, wrth geisio llywio Eisteddfod Caerdydd ym 1960 ond yr oedd Cynan, heb eithriad, yn gefn nas gellid ei well. Y mae yna ddywediad onid oes mai 'wrth drafod dyn y mae dod i'w nabod'. Yn

ein trafodaethau Eisteddfodol a phersonol mi gefais Cynan yn ymgorfforiad o gadernid caredig, o farn aeddfed a boneddigrwydd naturiol. Y mae'n wir, er hynny, y gallai fod yn llym ar adegau fel y cofia'r Gorseddogion hŷn. Er enghraifft, pe digwyddid i rywun gario ymbarél o dan ei wisg neu dynnu mwgyn bach ar y slei — dau bechod anfaddeuol bron a dania'i dafod mewn chwinciad gan gymaint ei sêl am berffeithrwydd seremonïol, ac fe gydnebydd pawb ei fod yn Feistr ar y gelfyddyd honno. Ond yn ôl at Cynan y Cyfaill. Ymwelodd y Medelwr â'r ddau deulu yn eu tro a pharodd i'r profiadau trist hynny i'n cyfeillgarwch wreiddio'n ddyfnach fyth. Parhâi i ddod i Gaerdydd i wahanol gyfarfodydd ac yn aml iawn — nid bob tro efallai — arhosai yn ein cartref yma ym Mhentyrch a minnau yn ei gludo allan o'r Ddinas gyda'r hwyr i fwynhau awelon iach y Mynydd. Cofiaf yn dda iawn un noson roedd William Morris, Gwilym Tilsli a Cynan yn pwyllgora yn swyddfa Pontcanna ac yr oeddem wedi gwahodd y tri ohonynt i ginio gyda'r nos yn ein cartref. Bore trannoeth yn y car ar eu ffordd adref mae'n amlwg eu bod wedi treulio peth o'r amser yn englyna a dyma ffrwyth yr awen: —

## MOLAWD TRIAWD TREN

O'i wirfodd ar fwyn yrfa — wele ŵr
Er loes inffliwensa,
Gwestewr, modurwr da
I'n cynnull o Bontcanna.

Bywiog oedd tŷ Ab Eos — i dri mab
O droi i mewn i aros.
Deuddyn mewn cartref diddos
A'u *menu* hael ym min nos.

Ym Mhentyrch cynnyrch i'r cinio — a gaed
O'u gardd yn llawn croeso,
Eidion o Eldorado
A phannas yn fras o'r Fro.



Saws blasus a phŷs fel ffa — ddigonedd
A gwenau Edwina.
Efo'r darten hufen ia
Cwrw hynod CORONA.

Ffolwyd ar gaws Caerffili — yna tê,
Paned dwym, nid coffi:
Gan lawned y sbred a'r sbri
Diolch a wnawn heb dewi.

(WILLIAM, TILSLI, CYNAN)

Ymhen amser, a Cynan eto'n aros gyda ni, bu iddo ddatgelu cyfrinach i fy mhriod a minnau o amgylch y tân, fod Menna ac yntau am briodi yn ein Capel bach ni, sef Bethlehem, Gwaelod y Garth, a'n Gweinidog ar y pryd — y diweddar Barchedig Gwilym Morris — oedd i wasanaethu yn y briodas. Cadwyd y gyfrinach yn gloëdig ac ni ddaeth neb i glywed am oriau wedi'r seremoni er i ni orfod dyfeisio pob cynllun i ddileu pob trywydd. Felly, o'n cartref ni ym Mhentyrch yr aeth Menna i'w phriodas ac yma y dychwelwyd i gael disglaid o de neu goffi . . . neu rywbeth!

Cefais gyfle un noson, a ninnau'n aros ym Mhenmaen, Porthaethwy, i fynd i un o'i ddosbarthiadau nos yn y 'Ffôr' os cofiaf, a dywedodd Cynan wrthyf ei fod wedi rhoi testun i'r dosbarth yr wythnos cynt i weithio englyn arno a'i fod yn disgwyl eu cynhyrchion y noson honno. Y testun oedd 'FFYNNON'. Cododd un o'r bechgyn ac adroddodd ei englyn a chofiaf ef byth gan mor naturiol ydyw, a dyma fe:

Bu Nain a'i Nain hithau — a'i phiser
Hen ffasiwn o dano;
Er rhoi fel hyn er cyn cof
Rhed atom yn rhad eto.

Pe bai'r bachgen wedi ennill y Gadair neu'r Goron ni allai cymeradwyaeth Cynan fod yn fwy calonogol a brwd. Roedd yn athro wrth natur ac yr oedd ganddo'r ddawn i

friwsioni unrhyw destun fel y gallai'r 'twpa' yn ei ddosbarth ei ddeall a'r mwyaf breintiedig ei werthfawrogi.

O'n cymharu â'r Albanwyr, ni fuom ni fel Cymry yn nodedig am godi cofgolofnau i feirdd a llenorion, ond bydd yr Orsedd yn gofgolofn deilwng i Cynan, tra pery'r iaith Gymraeg. Ond er hynny, fel cyfaill gwir y byddaf fi'n cofio amdano.

T. W. THOMAS



## *Cynan*

'Mab y Bwthyn', — mae'n huno
Yn ddi-rwysg yn sanctaidd ro
Erw y Llan ger murmur lli
Menai. Ni chlyw mohoni.

Annwyl yng 'Ngerddi Cynan'
Yw'r Nico. Dwg eco'r gân
Yn felys i'm cof eilwaith
Gychwyn y 'deryn ar daith
I Fôn o Facedonia,
O erwau'r drin a'r blin bla
Ar ymbil y bardd-filwr
'Luniai'i daith i 'ardd Glan Dŵr.'

Eofn fu yn ei fywyd,
Rhoi her bardd i rwystrau'r byd;
Drwy finiog benderfyniad
Hawliai gymen lên i'w wlad.
Ac o ardd ei ir 'Gerddi'
Egni iach a sugnwn ni;
Awen a'i thw dan wlith haf
Yn y priddyn pereiddiaf.

Llwyr y mawl mewn llawer man
I'w fawr lafur ar lwyfan;
Fe roes megis rhwysgfawr ha'
Newydd rym yn y ddrama.